Afasic GeirfA

Anawsterau iaith fynegiannol

Beth yw anawsterau iaith fynegiannol?

Gellir dosbarthu iaith yn iaith dderbyngar ac iaith fynegiannol.

Mae iaith **dderbyngar** yn cyfeirio at ystyr, deall iaith a 'dehongli' iaith. Mae iaith **fynegiannol** yn cyfeirio at gynhyrchu, allbwn llafar a chodio – 'proses o lunio syniadau a'u troi'n eiriau ac yn frawddegau, yn unol â'r set o reolau gramadegol a semantig iaith' (Cantwell a Baker 1987).

Gellir cael **oedi** neu **anhwylder** mewn iaith fynegiannol. Er bod sawl elfen o oedi ac anhwylder yn gorgyffwrdd, maent yn broblemau gwahanol iawn hefyd. Yn y cyfnod cynnar efallai y bydd yn anodd penderfynu a yw'r problemau iaith yn deillio o oedi neu anhwylder.

Bydd plentyn sydd ag **oedi** mewn iaith fynegiannol yn araf i ddatblygu ei iaith lafar, ond pan fydd yn ei datblygu bydd yn dilyn y rhediad a'r patrwm safonol o ddysgu iaith. Mae **anhwylder** iaith fynegiannol yn awgrymu bod y broses o ddysgu nid yn unig yn araf, ond hefyd yn wahanol i'r hyn sy'n arferol. Bydd patrwm y datblygiad yn anghyson ac yn annodweddiadol. Mae nodweddion anhwylder iaith fynegiannol yn amrywio'n fawr iawn, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb yr anhwylder ac oedran y plentyn.

Mae iaith yn cynnwys llawer o feysydd, gan gynnwys:

- **morffoleg**, y ffordd y bydd strwythur geiriau'n newid (e.e. cysgu, cysgaf, cysgais)
- **cystrawen (gramadeg)**, rheolau ar gyfuno geiriau mewn ymadroddion a brawddegau
- **semantig**, cynrychiolaeth ystyr mewn iaith
- **pragmateg**, sut y defnyddir iaith
- **seinyddiaeth**, system swn iaith.

Gall anawsterau iaith fynegiannol effeithio ar unrhyw rai o'r rhain neu ar bob un ohonynt. Cynigiodd Bloom a Lahey y gellir dosbarthu ahwylderau yn ôl y rhan o'r iaith sy'n achosi'r broblem. Roeddent yn ystyried iaith ar sail **cynnwys, ffurf** a **defnydd**.

Cynnwys

Mae anawsterau gyda chynnwys iaith yn ymwneud â'i hystyr. Efallai y bydd gan blant sydd ag anawsterau iaith fynegiannol eirfa gyfyngedig, gydag anhawster i ddod o hyd i eiriau, anhawster i fynegi cysyniadau haniaethol neu broblemau dosbarthu. Gall anawsterau gyda chynnwys iaith godi ymhlith plant sydd â nam ar y golwg (Warren 1981) neu'r rhai sy'n gyfyngedig o ran symudedd.

Ffurf

Bydd rhai plant yn cael anhawster i ddatblygu agweddau arwyneb ar iaith – ei ffurf. Bydd hyn yn arwain at anhwylderau gyda'r system swn, ffurf geiriau a gramadeg. Efallai y bydd plant o'r fath yn cael anhawster gyda threfn geiriau, trefnu brawddegau neu i fynegi'r hyn y maent yn ei wybod ac yn ei ddeall. Byddant yn perfformio'n well mewn profion aneiriol na phrofion iaith. Efallai y byddant yn cael anawsterau gyda diwedd geiriau, geiriau lluosog, rhagenwau meddiannol, amserau'r ferf neu arddodiaid. Gall problemau o'r fath godi o ganlyniad i ddysffasia nad yw'n gynhwysol neu ddysffasia datblygiadol neu i nam ar y clyw.

Defnydd

Efallai fod gan blentyn anhwylder iaith fynegiannol os bydd yn defnyddio iaith mewn ffordd amhriodol neu sydd allan o'i gyd-destun. Gellir defnyddio'r term 'anhwylder semantig-pragmatig' i ddisgrifio'r plant hyn, yr ymddengys bod ganddynt amgyffrediad geiriol da a'u bod yn gallu ffurfio brawddegau sy'n briodol i'w hoedran, ond sy'n cael anhawster i dderbyn neu ddehongli arwyddion sgyrsiol. Mae problemau o'r fath yn nodweddiadol o blant sydd ag anawsterau dysgu. Ni fyddant yn rhugl yn aml ac efallai y byddant yn gor-ddefnyddio geirfa gyfyngedig neu ddiriaethol, ac yn aml yn methu â deall bod angen egluro (Wiig a Semel 1980).

Cyfeiriadau

Cantwell, D a Baker, L (1987), *Developmental Speech and Language Disorders*, Guildford Press

Law, J (1992), *The Early Identification of Language Impairment in Children*, Chapman and Hall

McCormick, L a Schiefelbusch, P (1984), *Early Language Intervention*, Merrill

Webster, A a McConnell, C (1992), *Special Needs in Ordinary Schools: children with speech and language difficulties*, Cassell Educational

Wiig a Semel (1984), *Language Assessment and Intervention for the Learning Disabled*, Merrill

Taflenni Geirfa perthnasol eraill

- Nam iaith penodol (1)
- Dyslecsia/anawsterau dysgu penodol (2)
- Oedi/anhwylder datblygu iaith (3)
- Anhwylderau semantig a phragmatig (5)
- Affasia/dysffasia (17)